

Canllaw i strwythurau cyfreithiol

Gorffennaf 2021

Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Cynnwys

1 Cyflwyniad i strwythurau cyfreithiol	3
2 Dewis ffurf wedi dewis diben	3
3 Sefydliadau anghorfforedig	3
4 Sefydliadau corfforedig	4
5 Elusennau a changhennau masnachol	7
6 Egwyddorion cydweithredol	10
7 Rhagor o wybodaeth	11



1 Cyflwyniad i ffurfiau cyfreithiol

Mae dewis y ffurf gyfreithiol gywir ar gyfer eich busnes cymdeithasol yn bwysig iawn ac mae gan bob ffurf ei manteision a'i hanfanteision, gan ddibynnu sut rydych eisiau rhedeg eich busnes. Am y rheswm hwn, mae fel arfer yn beth doeth llunio strategaeth fusnes glir cyn i chi ddewis ffurf gyfreithiol ar gyfer eich sefydliad. Mae Adran 2 yn tynnu sylw at rai o'r cwestiynau y dylech eu hystyried.

Bydd grŵp o unigolion sydd eisiau sefydlu rhyw fath o sefydliad naill ai'n dod yn *sefydliad anghorfforedig* neu'n *sefydliad corfforedig*. Bydd Adrannau 3 a 4 yr arweiniad hwn yn egluro'r gwahaniaeth rhwng y ffurfiau busnes hyn ac yn tynnu sylw at y ffurfiau cyfreithiol anelusennol sydd ar gael i chi.

Bydd Adran 5 yn mynd ymlaen i ystyried statws elusennol a'r opsiynau o ran ffurf gyfreithiol anghorfforedig a chorfforedig ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n teimlo bod statws elusennol yn addas.

2 Dewis ffurf wedi dewis diben

Bydd y ffurf gyfreithiol orau ar gyfer eich menter yn dibynnu ar sawl peth. Dyma'r pethau allweddol:

- ▶ Beth yn union yr ydych am ei wneud – eich busnes
- ▶ Pwy fydd yn berchen ar y fenter ac yn ei rheoli – eich llywodraethiant
- ▶ Sut byddwch yn codi'r arian – cyllid
- ▶ Beth y byddwch yn ei wneud gydag unrhyw warged neu elw – defnyddio gwarged
- ▶ Beth y byddwch yn ei wneud gyda'ch asedau os byddwch yn dirwyn y fenter i ben – diddymu a pherchnogaeth

Dylech fod wedi penderfynu ar lawer o'r uchod yn

ystod eich cyfnod cynllunio. Yna dylech fod mewn sefyllfa i benderfynu ar y ffurf gyfreithiol fwyaf addas i gyd-fynd â'r hyn yr ydych eisiau ei wneud. Peidiwch â dewis eich ffurf gyfreithiol ac yna cynllunio eich menter i gyd-fynd â hi – mae hwn yn gamgymeriad cyffredin wrth gychwyn menter. Gochelwch rhag cyngor sy'n cynghori ynghylch ffurf gyfreithiol heb edrych yn drwyadl ar ba fath yn union o fusnes y mae arnoch eisiau ei greu.

3 Sefydliadau anghorfforedig

Mae Sefydliad Anghorfforedig yn sefydliad sy'n bodoli fel grŵp o unigolion neu aelodau sydd wedi dod ynghyd at ddiben cyffredin. Dylai unrhyw sefydliad anghorfforedig fabwysiadu dogfen lywodraethu ffurfiol waeth beth yw ei raddfa a'i nodau. Bydd y ddogfen lywodraethu yn sicrhau bod unrhyw un sy'n ymwneud â'r sefydliad yn gwybod yn glir at ba ddiben y cafodd ei sefydlu, pwy sy'n gymwys i gymryd rhan a sut mae'n trefnu ei hun, a dylai gwmpasu:

- ▶ Enw'r sefydliad
- ▶ Ei amcanion a'i bwerau
- ▶ Pwy all fod yn aelod
- ▶ Sut a phryd y bydd aelodau'n cwrdd
- ▶ Sut y gwneir penderfyniadau
- ▶ Beth fydd yn digwydd i asedau'r sefydliad os caiff ei ddirwyn i ben

Mae'n bosibl iawn y bydd materion eraill yn cael eu cynnwys, ond dyma'r prif elfennau. Fel arfer gelwir dogfen lywodraethu sefydliad anghorfforedig yn gyfansoddiad. Gall y sefydliad hwn ymgymryd â'i weithgareddau fel y gwêl orau, ond bydd ganddo'r nodweddion canlynol:

- ▶ Yn gweithredu fel grŵp o unigolion

- ▶ Ddim yn ffurf gyfreithiol gydnabyddedig sydd ar wahân i'r unigolion hyn
- ▶ Gall yr unigolion hyn, ar y cyd, gyflogi pobl, bod yn berchen ar eiddo a llofnodi contractau yn enw'r sefydliad, ond yng ngolwg y gyfraith yr un ydynt hwy a'r sefydliad
- ▶ Os yw'r gymdeithas anghorfforedig yn berchen ar eiddo neu'n cymryd eiddo ar les, rhaid penodi ymddiriedolwyr daliannol sydd fel arfer ar wahân i bwyllgor rheoli'r sefydliad

Mae sefydliadau anghorfforedig wedi'u sefydlu ar gyfer ystod eang o grwpiau a busnesau. Er enghraifft, bydd clwb ar ôl ysgol neu gymdeithas tenantiaid a thrigolion yn aml yn aros yn anghorfforedig. Efallai y bydd rhai mentrau cydweithredol, megis mentrau tanwydd cydweithredol, yn penderfynu dewis ffurf gyfreithiol anghorfforedig, ac os felly byddant yn corffori egwyddorion y fenter gydweithredol yn eu cyfansoddiad. Mae cyfansoddiadau enghreifftiol ar gael ar gyfer sefydliadau anghorfforedig gan y rhan fwyaf o gynghorau gwirfoddol sirol.

Nid yw sefydliadau anghorfforedig yn elwa yn sgil Atebolrwydd Cyfyngedig. Golyga hyn fod gan aelodau unigol y sefydliad, yn y pen draw, gyfrifoldeb personol am ei ddyledion. Efallai y bydd sefydliadau anghorfforedig sy'n cymryd risgiau ariannol megis prynu neu brydlesu tir neu adeiladau neu gyflogi staff eisiau ystyried sefydlu sefydliad corfforedig.

4 Sefydliadau anghorfforedig

Gall sefydliad fod â'i resymau ei hun am ystyried corffori. Dylai holl aelodau sefydliad wybod yn glir pam y dylent ystyried cofrestru cyfreithiol a beth yw goblygiadau hyn.

Daw sefydliad corfforedig yn endid cyfreithiol sy'n bodoli ar wahân i'r aelodaeth ac felly mae'n parhau i fodoli er gwaethaf newidiadau mewn aelodaeth.

Gall gymryd camau cyfreithiol yn ei enw ei hun, gall fod yn berchen ar eiddo, llunio contractau, erlyn a chael ei erlyn a gall agor cyfrif banc yn ei enw.

Mae ganddo atebolrwydd cyfyngedig. Mae hyn fel arfer yn hanfodol pan fydd gan grŵp un neu ragor o'r nodweddion canlynol: trosiant uchel; yn cyflogi staff; yn llofnodi contractau; yn berchen ar eiddo; yn rhoi credyd.

Daw'n ffurf gyfreithiol a gydnabyddir gan gyllidwyr a chefnogwyr posibl. Mewn rhai achosion, gall cyllidwyr grantiau, cyllidwyr benthyciadau a banciau fynnu ar gorffori.

Drwy fabwysiadu dogfen lywodraethu ffurfiol gellir sicrhau eglurder ynghylch strwythur y busnes, a thrwy gynnwys egwyddorion cydweithredol gellir adnabod y busnes yn ôl y gyfraith fel un sydd er budd ei aelodau.

Os yw grŵp yn aros yn anghorfforedig ond bod ganddo gyfansoddiad a chofrestr aelodaeth, yna gall yr holl aelodau fod yn atebol am unrhyw ddyledion a fydd gan y busnes. Wedi iddo gael ei ymgorffori, daw Cyfarwyddwyr y cwmni yn rheolwyr cyfreithiol ac, yng ngolwg y gyfraith, mae ganddynt ddyletswyddau a chyfrifoldebau arbennig.

Os yw'r sefydliad wedi penderfynu ymgorffori, mae angen iddo ystyried a ddylai ymgorffori fel:

- ▶ Cwmni Cyfyngedig;
- ▶ Cymdeithas Gofrestredig; neu
- ▶ Sefydliad Elusennol Corfforedig (gweler Adran 5)

Cwmnïau Cyfyngedig

Y cwmni cyfyngedig yw'r ffurf fwyaf poblogaidd ar strwythur corfforedig y gall sefydliadau ei mabwysiadu. Mae hyn yn wir am sefydliadau cymunedol, sefydliadau nad ydynt yn dosbarthu elw

a'r sector preifat. Cânt felly eu cydnabod a'u deall yn eang gan fanciau, cyrff cyhoeddus a busnesau eraill.

Mae'r cysyniad o gwmni cyfyngedig yn un syml. Drwy gofrestru fel cwmni cyfyngedig daw'r sefydliad yn endid cyfreithiol cydnabyddedig sydd ar wahân i'r aelodau sydd wedi dod ynghyd i'w ffurfio. Gall ymgymryd â holl weithgareddau sefydliad megis cyflogi pobl, derbyn grantiau neu fod yn berchen ar asedau – fel endid yn ei hawl ei hun. Bydd bob amser yn grŵp o unigolion (neu sefydliadau) sy'n gweithredu ar y cyd o fewn set o reolau y cytunwyd arnynt, a elwir yn ffurfiol yn Erthyglau Cymdeithasu.

Isod, edrychwn ar bedwar math o gwmni cyfyngedig preifat. Noder hefyd fod yna bumed math o gwmni – Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus (CCC) – ond mae'n annhebygol iawn y bydd Busnes Cymdeithasol yn mabwysiadu'r ffurf hon ac felly nid yw'n ymddangos yn yr arweiniad hwn.

Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau

Yn aml gwelir cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau fel y strwythur mwyaf addas ar gyfer cwmni sy'n dosbarthu elw ac sy'n ceisio darparu gwasanaeth neu gynhyrchu nwyddau am elw â'r bwriad o ddychwelyd rhan o'r elw hwnnw neu'r cyfan ohono i gyfranddalwyr yn y busnes. Bydd cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yn aml yn codi cyfalaf cychwynnol drwy gyhoeddi cyfranddaliadau yn y busnes i'w gyfranddalwyr. Fodd bynnag, mae rheolaethau caeth ar ei allu i godi arian gan y cyhoedd. Fel arfer bydd aelodau'n disgwyl enillion am eu cyfalaf a bydd eu hatebolrwydd i gredydwyr y cwmni wedi'i gyfyngu i'r cyfalaf a fuddsoddwyd yn wreiddiol, gwerth enwol y cyfranddaliadau ac unrhyw bremiwm a dalwyd er mwyn cyhoeddi'r cyfranddaliadau gan y cwmni. Ceir rhai hawliau, sy'n gallu amrywio, ynghlwm â'r cyfranddaliadau, megis yr hawl i elw'r cwmni drwy ddifidendau a hawliau rhagbrynant sy'n nodi pwy sy'n gallu prynu cyfranddaliadau gan y perchnogion.

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

Nid oes gan gwmni cyfyngedig drwy warant gyfranddaliadau (cyfalaf cyfranddaliadau) ac felly ni all godi cyfalaf cychwynnol yn yr un modd. Daw'r rhai sydd ynghlwm ag ef yn aelodau ac maent yn addo talu swm penodedig, £1 fel arfer, tuag at ddyledion y cwmni fydd heb eu casglu os caiff ei ddiddymu neu ei ddirwyn i ben. Mae atebolrwydd aelodau wedi'i gyfyngu i'r swm penodedig hwn. Fe'i gwelir fel arfer fel y strwythur cwmni mwyaf addas ar gyfer cwmni nad yw'n dosbarthu elw ac sydd wedi'i sefydlu er budd cymuned benodol. Yn aml bydd ffocws cymdeithasol i'w amcanion, yn hytrach na ffocws cwbl ariannol. Fodd bynnag, fel unrhyw gwmni, dylai bob amser weithredu'n briodol ac anelu at wneud elw er mwyn gwireddu ei nodau cymdeithasol. Mae'n debygol y bydd ganddo reolau penodol yn amlinellu sut y dylid defnyddio unrhyw warged a gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ei ail-fuddsoddi yn y busnes neu i gefnogi gweithgarwch o fewn y gymuned y mae'n gweithredu ynddi. Mae'n aml yn elwa o fynediad i grantiau nad ydynt bob amser ar gael i gwmniau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau.

Mae'n bosibl y gallai cwmni cyfyngedig drwy warant wneud cais am statws elusennol. Gweler Adran 5 am ragor o fanylion.

Cwmni Buddiannau Cymunedol Cyfyngedig drwy Warant neu Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau

Mae'r Cwmni Buddiannau Cymunedol neu'r CBC yn fath o gwmni sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer busnesau sydd eisiau defnyddio eu helw a'u hasedau er lles y cyhoedd. Mae CBCau yn hawdd i'w sefydlu, gyda holl hyblygrwydd a sicrwydd ffurf cwmni, ond gyda rhai nodweddion arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio er budd y gymuned. Mae CBCau yn adrodd i reoleiddiwr annibynnol ar sut maent yn darparu ar gyfer y gymuned a sut maent yn cynnwys eu rhanddeiliaid yn eu gweithgareddau.

Bydd angen i CBC newydd ddarbwylo'r rheoleiddiwr ei fod wedi'i sefydlu er budd cymuned a rhaid iddo basio prawf buddiant cymunedol. Mae'n rhaid i CBCau hefyd gynhyrchu adroddiadau budd cymunedol blynyddol. Gall CBC fod yn gyfyngedig naill ai drwy warant neu drwy gyfranddaliadau; fel arfer bydd gan CBCau sy'n gyfyngedig drwy gyfranddaliadau y ddarpariaeth i dalu difidend i gyfranddalwyr yn amodol ar amodau a osodir gan y Rheoleiddiwr. Oherwydd hyn, mae'n bosibl na fydd rhai cyrff cyllido cyhoeddus yn cyllido CBC sy'n gyfyngedig drwy gyfranddaliadau.

Ni fydd CBC yn gallu gwneud cais am statws elusenol.

<https://www.gov.uk/government/organisations/companies-house>

www.bis.gov.uk/cicregulator

Cwmni Cyfranddaliadau neu Gwmni Gwarant?

Ystyrir mai menter gwneud elw yw cwmni cyfranddaliadau, a hynny oherwydd ei fod, i bob pwrpas, yn benthyc arian gan ei aelodau, y cyfeirir atynt fel "cyfranddalwyr", i fuddsoddi yn y busnes er mwyn creu elw i'w aelodau. Ni fydd cyfranddaliwr fel arfer yn prynu cyfranddaliadau os na all ef/hi ddisgwyl enillion ariannol mwy ar ei fuddsoddiad na'r hyn y byddai'n ei gael yn y gymdeithas adeiladu neu'r banc. Y cyfranddalwyr sy'n berchen ar y cwmni cyfranddaliadau a byddant yn penodi'r bwrdd cyfarwyddwyr fel y dangosir yn erthyglau cymdeithasu'r cwmni. Gellir creu incwm i'r busnes drwy gyhoeddi cyfranddaliadau.

Ystyrir y cwmni gwarant yn aml yn gwmni nad yw'n dosbarthu elw. Ni all gyhoeddi cyfranddaliadau oherwydd ni all ddarparu enillion i gyfranddalwyr posibl. Fel arfer bydd cwmnïau gwarant yn darparu gwasanaeth er budd cymuned benodol (daearyddol neu gymuned fuddiant) ac yn anelu at wneud elw er mwyn buddsoddi gwarged yn ôl yn y busnes, neu wneud cyfraniadau cymdeithasol/elusenol. Ni allant

dal difidend i gyfarwyddwyr, gweithwyr nac aelodau a bydd asedau'r cwmni fel arfer yn cael eu dal yn 'gyffredin' ac os felly rhaid eu trosglwyddo i sefydliadau tebyg os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben. Nid oes cyfranddaliadau ac felly nid oes cyfranddalwyr. Gan nad oes modd denu cyfalaf gweithiol o gyfranddaliadau, mae cwmnïau gwarant yn aml yn chwilio am gyllid o grantiau neu gael gafael ar gyllid benthyciadau er mwyn talu costau cyfalaf a refeniw. Bydd cwmnïau gwarant yn manylu ynghylch y nodweddion hyn yn eu Herthyglau Cymdeithasu.

Cymdeithasau Cofrestredig

Mae Cymdeithasau Cofrestredig, y cyfeirir atynt yn ffurfiol fel Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, yn gweithredu yn yr un modd â chwmnïau. Mae'r rhan fwyaf o Gymdeithasau Tai yn Gymdeithasau Cofrestredig ac mae'r mudiad mentrau adwerthu cydweithredol yn seiliedig ar ffurf gyfreithiol Cymdeithas Gofrestredig. Er nad ydynt efallai'n cael eu cydnabod mor eang â chwmnïau, mae ganddynt nifer o fanteision o'u cymharu â strwythur cwmni.

Ceir dau fath o Gymdeithasau Cofrestredig:

Cymdeithas Gydwethredol:

Mae cymdeithas gydwethredol yn strwythur addas ar gyfer sefydliad democrataidd sy'n dosbarthu elw ac sydd â'r nod o ddarparu gwasanaeth neu wneud cynnyrch am elw a dychwelyd rhan o'r elw hwnnw neu'r cyfan ohono i aelodau'r fenter gydwethredol.

Ei fantais fwyaf o'i gymharu â chwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yw nad oes ganddo'r rheolaethau caeth dros ei allu i godi arian gan y cyhoedd neu grŵp penodol o bobl er mwyn helpu i'w sefydlu a'i redeg. Gellir talu enillion cyfyngedig ar gyfalaf i'w aelodau.

Uchafswm gwerth y cyfranddaliadau y gellir eu dal (ac y gellir eu tynnu allan) mewn Cymdeithas Gofrestredig ar hyn o bryd yw £100,000 o gyfalaf

cyfranddaliadau. Fodd bynnag, caniateir i Gymdeithasau Cofrestredig eraill fuddsoddi heb gyfyngiad yng nghyfranddaliadau Cymdeithas Gofrestredig arall.

Cymdeithas Budd Cymunedol:

Gall cymdeithas budd cymunedol hefyd gyhoeddi cyfranddaliadau i'w aelodau yn yr un modd â chymdeithas gydweithredol. Mae'n bosibl y bydd llawer ohonynt ddim ond yn cyhoeddi un cyfranddaliad fesul unigolyn, a hynny dim ond at ddibenion aelodaeth. Rhaid i gymdeithas budd cymunedol ddangos pam na ddylid ei ffurfio fel cwmni yn rhan o'r broses gofrestru. Un rheswm yw oherwydd ei bod yn syml iawn i gymdeithas gyhoeddi cyfranddaliadau sydd fel arfer yn cadw'r gwerth o £1 ac nad ydynt yn cynyddu o ran eu gwerth (cyfranddaliadau par). Rheswm arall yw bod egwyddorion democrataidd wedi'u corffori yn y ffurf gyfreithiol hon.

Un fantais sydd gan gymdeithas budd cymunedol dros gwmni cyfyngedig drwy warant yw ei bod nid yn unig yn cael ei chydnabod fel sefydliad nad yw'n dosbarthu elw ac sy'n gallu derbyn grantiau ac sydd â ffocws cymdeithasol yn hytrach nag un ariannol, ond ei bod hefyd yn gallu cyhoeddi llawer o gyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan i aelodau ei chymuned at ddibenion buddsoddiad cymdeithasol fel ffordd arall o godi cyfalaf. Fel unrhyw gwmni, dylai bob amser weithredu'n briodol ac anelu at ddod yn fusnes proffidiol a fydd yn caniatáu ar gyfer ailfuddsoddi yn y busnes, talu llog cyfyngedig ar gyfalaf cyfranddaliadau a chaniatáu i aelodau dynnu cyfranddaliadau'n ôl yn amodol ar amodau penodol.

Mae cymdeithasau'n gofrestredig gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn Llundain ac maent yn amodol ar Ddeddf Mentrau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae'n bosibl y gallai Cymdeithas Budd Cymunedol wneud cais i Gyllid y Wlad am Statws Elusen Esempt. Gweler Adran 5 am ragor o wybodaeth.

<https://www.fca.org.uk/firms/registered-societies-introduction>

5 Elusennau a changhennau masnachol

Elusennau

I fod yn elusen yng Nghymru a Lloegr, rhaid i sefydliad fod â diben elusennol yn unig **a** bod er budd y cyhoedd.

Byddwch yn ymwybodol nad yw popeth sydd er budd y gymuned neu sy'n achos da yn elusennol. Mae Deddf Elusennau 2011 yn diffinio diben elusennol, yn benodol, fel un sydd o fewn 13 o ddisgrifiadau o ddiben:

- ▶ Atal neu leddfu tlodi
- ▶ Hyrwyddo addysg
- ▶ Hyrwyddo crefydd
- ▶ Hyrwyddo iechyd neu arbed bywydau
- ▶ Hyrwyddo dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol
- ▶ Hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- ▶ Hyrwyddo chwaraeon amateur
- ▶ Hyrwyddo hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi neu hyrwyddo cytgordeb crefyddol neu hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth
- ▶ Hyrwyddo diogelu neu wella'r amgylchedd
- ▶ Cynorthwyo'r rhai sydd mewn angen, oherwydd ieuenctid, oed, afiechyd, anabledd, caledi ariannol neu anfantais arall
- ▶ Hyrwyddo lles anifeiliaid
- ▶ Hyrwyddo effeithlonrwydd lluoedd arfog y

Goron, neu effeithlonrwydd yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub neu'r gwasanaethau ambiwlans

► Unrhyw ddibenion elusennol eraill

Uwchlaw popeth, rhaid i ddiben yr elusen fod er budd y cyhoedd. Rhaid iddi fod o fudd gwirioneddol a rhaid iddi fod er budd y cyhoedd i gyd neu ran ddigonol o'r cyhoedd.

Ceir sawl mantais i statws elusennol gan gynnwys: rhyddhad ardrethi annomestig, rhyddhad treth gorfforaeth, rhodd cymorth ar gyfraniadau a'r posibilrwydd o ddenu cyllid grant na fydd ar gael, o bosibl, i sefydliadau anelusennol.

Gellir sefydlu elusen mewn un o bedair ffordd:

- *Ymddiriedolaeth elusennol* – yn cael ei sefydlu fel arfer i reoli eiddo ac asedau eraill, mae'n elusen **anghorfforedig** nad yw'n masnachu. Cyfeirir at y ddogfen lywodraethu fel Gweithred Ymddiriedolaeth.
- *Cymdeithas elusennol anghorfforedig* – strwythur a ddewisir gan grŵp sydd eisiau sefydlu elusen ond nad yw'n teimlo bod graddfa'r elusen na natur y gweithrediadau yn cyfiawnhau corffori e.e. efallai nad yw'n cyflogi staff neu nad oes ganddi rwymedigaethau cytundebol sylweddol. Cyfeirir at y ddogfen lywodraethu fel ei chyfansoddiad.
- *Cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant – corfforedig* fel cwmni atebolrwydd cyfyngedig ac yna'n sicrhau statws elusennol. Cyfeirir at y ddogfen lywodraethu fel yr Erthyglau Cymdeithasu.
- *Sefydliad elusennol corfforedig* – ffurf gyfreithiol gymharol newydd a gyflwynwyd yn 2013 ac sy'n rhoi atebolrwydd cyfyngedig a statws elusennol i'r Ymddiriedolwyr heb angen

ffurfio cwmni. Cyfeirir at y ddogfen lywodraethu fel Cyfansoddiad.

O blith y strwythurau hyn, dim ond y cwmni elusennol a'r sefydliad elusennol corfforedig sy'n rhoi atebolrwydd cyfyngedig i'r ymddiriedolwyr. Mae'r holl ffurfiau uchod yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau a gellir canfod dogfennau llywodraethu cyfatebol ar eu gwefan: <https://www.gov.uk/government/publications/setting-up-a-charity-model-governing-documents>

Cwmni Elusennol

Bydd cwmni elusennol yn mwynhau manteision elusen ond hefyd fantais cwmni cyfyngedig drwy warant – bydd gan yr aelodau atebolrwydd cyfyngedig nad ydyw fel arfer yn uwch na £1. Bydd gan y cwmni amcanion cwbl elusennol y tynnir sylw atynt yn ei Erthyglau Cymdeithasu, bydd wedi bodloni'r Comisiwn Elusennau ei fod wedi'i sefydlu i fod er budd y cyhoedd a bydd angen iddo fod â throsiant o £5,000 neu fwy. Mae'r Comisiwn Elusennau yn argymhell y dylai isafswm o dri chyfarwyddwr/ymddiriedolwr fod ar y bwrdd.

Rhaid i Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni elusennol bennu perchnogaeth gyffredin (h.y. nid yw'r asedau'n eiddo i'r aelodau), peidio â dosbarthu elw i aelodau, ac nid yw gweithwyr fel arfer yn cael bod ar y bwrdd.

Mae'r Cwmni Elusennol yn cael ei reoleiddio gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau ill dau ac mae'n rhaid iddo gyflwyno cyfrifon blynyddol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefydliad i'r ddau Reoleiddiwr. Er y gall yr opsiwn hwn olygu mwy o waith gweinyddol, mae strwythur y cwmni yn ffurf gyfreithiol sy'n cael ei chydabod yn eang ac yn cael ei chefnogi gan fframwaith cyfreithiol sydd wedi'i hen sefydlu ac mae ganddo rai nodweddion nad ydynt yn eiddo i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig megis Cofrestr Gyhoeddus o Bridiannau sy'n caniatáu i gyllidwyr a benthydwyr gofrestru pridiant cyhoeddus dros asedau'r sefydliad. Y farn ar

hyn o bryd yw bod y cwmni elusennol yn strwythur corfforedig mwy addas ar gyfer elusennau canolog neu fawr o ran maint.

Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC)

Mae sefydliad elusennol corfforedig wedi'i gynllunio i roi i ymddiriedolwyr y budd a ddaw yn sgil atebolrwydd cyfyngedig ac un Rheoleiddiwr, sef y Comisiwn Elusennau. Mae'n ffurf gyfreithiol gymharol newydd sydd, yn gyffredinol, yn cael ei hystyried yn fwy addas ar gyfer elusennau bach a chanolog eu maint sy'n annhebygol o fod angen pridiannu eu hasedau i gredydwy. Mae'n bosibl y cymer yn hwy i sefydlu SEC ond bydd y sefydliad yn un elusennol yn awtomatig cyn gynted ag y bydd wedi'i sefydlu. Nid oes gofyniad o ran isafswm trosiant cyn y gallwch wneud cais i fod yn SEC.

Mae dau fodel i ddewis o'u plith, y "Model Sefydliad" a'r "Model Cymdeithas".

Mae'r model sefydliad ar gyfer elusennau lle mai dim ond ymddiriedolwyr yr elusen fydd yr aelodau sy'n pleidleisio. Mae'r model cymdeithas ar gyfer elusennau fydd ag aelodaeth ehangach, gan gynnwys aelodau sy'n pleidleisio yn ychwanegol at ymddiriedolwyr yr elusen.

Cymdeithasau Budd Cymunedol Elusennol

Ni all Cymdeithasau Budd Cymunedol a chanddynt amcanion elusennol yn unig gael eu cofrestru fel elusennau gyda'r Comisiwn Elusennau ond gallant wneud cais i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am Statws Elusen Esempt at ddibenion treth. Os ydynt yn llwyddiannus, byddant yn cael yr un manteision treth â'r elusennau hynny sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Nid oes Prif Reoleiddiwr wedi'i benodi eto ar gyfer Cymdeithasau a chanddynt Statws Elusen Esempt. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ddatganiad yn 2012 yn cydnabod y gall cymdeithasau budd cymunedol elusennol gyhoeddi cyfranddaliadau cymunedol a thalu llog i aelodau ar gyfalaf

cyfranddaliadau, yn amodol ar nifer o amodau a amlinellwyd gan y Comisiwn.

Elusennau a Masnachu

Caniateir masnachu gan sefydliadau elusennol o fewn cyfyngiadau penodol a bennwyd.

Ceir dau fath o fasnachu sy'n cael eu sancsiynu'n benodol gan ddeddfwriaeth.

- ▶ Masnach yr ymgwymerir â hi wrth gyflawni prif ddiben
- ▶ Masnach a gyflawnir gan fuddiolwyr yr elusen ei hun

Yn y ddwy sefyllfa, mae'r holl incwm a gynhyrchir yn cael ei ailfuddsoddi yn y busnes er mwyn cyflawni prif amcanion yr elusen.

Ceir rhagor o wybodaeth fanwl ar: <https://www.gov.uk/government/publications/trustees-trading-and-tax-how-charities-may-lawfully-trade-cc35/trustees-trading-and-tax-how-charities-may-lawfully-trade>

Canghennau Masnachu

Bydd elusennau sydd eisiau'r rhyddid i fasnachu a lleihau'r risg i'r rhiant-elusen yn aml yn ystyried sefydlu cangen fasnachu/is-gwmni masnachu. Yn sylfaenol, yr hyn ydyw yw cwmni sy'n eiddo i, ac yn cael ei reoli gan, un neu fwy o elusennau ac sydd fel arfer yn cael ei sefydlu er mwyn bod yn gyfrifol am risgiau ar ran y rhiant-elusennau a chreu incwm iddynt. Rhaid defnyddio is-gwmnïau masnachu yn achos masnachau nad ydynt yn ymwneud â'r prif ddiben ac sydd ag elfen sylweddol o risg.

Gellir sefydlu is-gwmni masnachu gan ddefnyddio cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau lle mai'r rhiant-elusennau yw'r cyfranddalwyr neu gwmni cyfyngedig drwy warant lle mai'r rhiant-elusennau yw'r aelodau. Mae hefyd yn bosibl i elusen fod yn

unig gyfranddaliwr neu aelod o fewn is-gwmni masnachu.

Mae is-gwmnïau masnachu fel arfer yn cael eu hariannu gan gyfalaf cyfranddaliadau neu fenthyciadau gan y rhiant. Fodd bynnag, yn achos is-gwmnïau elusennol, rhaid i ymddiriedolwyr y rhiant-elusen allu cyfiawnhau cefnogaeth ariannol ar gyfer is-gwmni masnachu fel buddsoddiad addas o adnoddau'r elusen. Mae'r Comisiwn Elusennau yn awgrymu ei bod yn arfer da chwilio am gyllid buddsoddi o ffynonellau eraill hefyd. Rhaid i riant-elusen beidio â gwneud cyfraniadau i'r is-gwmni masnachu, mewn arian nac mewn nwyddau, boed drwy brynu stoc i'r is-gwmni a chyfrannu'r stoc hwnnw i'r is-gwmni masnachu, neu fel arall; rhaid i riant-elusen beidio â thalu dyledion yr is-gwmni masnachu; a rhaid i elusen, os yw'n caniatáu i is-gwmni masnachu ddefnyddio ei staff, adeiladau neu offer, godi tâl teg am y defnydd hwnnw.

Rhaid gwneud trefniadau gweinyddol priodol rhwng yr is-gwmni masnachu a'r elusen, gan sicrhau eu bod yn gyfan gwbl ar wahân. Mae llywodraethu da yn awgrymu na ddylai mwyafrif cyfarwyddwyr yr is-gwmni masnachu fod yn ymddiriedolwyr yr elusen hefyd.

Mae'r is-gwmni masnachu, fel unrhyw gwmni, yn atebol am dreth gorfforaeth; fodd bynnag, gellir lleihau'r atebolrwydd hwn drwy roi elw'n rhodd i'r rhiant-elusen. Gwneir hyn fel arfer drwy Rodd Cymorth. Dylid bob amser gael cyngor cyfrifyddiaeth.

6 Egwyddorion cydweithredol

Mae menter gydweithredol yn gymdeithas ymreolaethol o bersonau sydd wedi'u huno'n wirfoddol i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin drwy fenter y maent yn berchen arni ar y cyd ac sy'n cael ei rheoli'n ddemocrataidd.

Aelodaeth Wirfoddol ac Agored

Sefydliadau gwirfoddol yw mentrau cydweithredol, ac maent yn agored i'r holl bersonau sy'n gallu defnyddio'u gwasanaethau ac sy'n barod i dderbyn cyfrifoldebau aelodaeth, heb wahaniaethu ar sail rhywedd na gwahaniaethu cymdeithasol, hiliol, gwleidyddol na chrefyddol. Gellir diffinio categorïau aelodaeth a gellir gwarantu cynrychiolaeth gyfartal o wahanol gategoriâu drwy gyfansoddiad y sefydliad.

Rheolaeth Ddemocrataidd

Sefydliadau democrataidd yw mentrau cydweithredol, sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau, sy'n cymryd rhan weithredol wrth lunio eu polisiau a gwneud penderfyniadau. Mae dynion a menywod sy'n gwasanaethu fel cynrychiolwyr etholedig yn atebol i'r aelodaeth a hynny drwy'r cyfarfod cyffredinol blynyddol, sy'n ofyniad cyfreithiol, lle bydd yr aelodau yn eu hethol. Mae gan y rhan fwyaf o fentrau cydweithredol hawliau pleidleisio cyfartal (un aelod, un bleidlais) a gwneir y rhan fwyaf o benderfyniadau drwy bleidlais fwyafrifol, oni bai bod mwyafrif o 75% yn cael ei bennu gan y gyfraith.

Cyfranogiad Economaidd Aelodau

Mae aelodau'n cyfrannu'n gyfartal at gyfalaf eu menter gydweithredol, ac yn rheoli'r cyfalaf hwnnw'n ddemocrataidd. Mae o leiaf ran o'r cyfalaf hwnnw fel arfer yn eiddo cyffredin y fenter gydweithredol. Bydd aelodau fel arfer yn cael eu digolledu'n gyfyngedig am unrhyw ran o'r cyfalaf a gyfrannwyd fel amod aelodaeth. Bydd aelodau'n dyrannu gwarged at unrhyw rai neu bob un o'r dibenion canlynol: datblygu eu menter gydweithredol drwy ddarparu ar gyfer cronfeydd wrth gefn; rhoi budd i aelodau yn gyfrannol i'w trafodion gyda'r fenter gydweithredol neu drwy gynllun ymddiriedolaeth addas, a chefnogi gweithgareddau eraill a gymeradwyir gan yr aelodaeth ac a allai fod yn gymdeithasol ac/neu elusennol.

Ymreolaeth ac Annibyniaeth

Sefydliadau ymreolaethol, hunangymorth yw mentrau cydweithredol, sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau. Os ydynt yn dod i gytundeb gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys llywodraethau, neu'n codi cyfalaf o ffynonellau allanol, maent yn gwneud hynny ar delerau sy'n sicrhau rheolaeth ddemocrataidd gan eu haelodau ac sy'n cynnal eu hymreolaeth gydweithredol.

Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth

Mae mentrau cydweithredol yn darparu addysg a hyfforddiant i'w haelodau, cynrychiolwyr etholedig, rheolwr a gweithwyr fel y gallant gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad eu menter gydweithredol. Maent yn hysbysu'r cyhoedd yn gyffredinol am natur a manteision mentrau cydweithredol.

Cydweithredu â Mentrau Cydweithredol Eraill

Mae mentrau cydweithredol yn gwasanaethu eu haelodau yn fwyaf effeithiol ac yn cryfhau'r mudiad cydweithredol drwy weithio ynghyd drwy strwythurau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Consŷrn am Gymuned

Mae mentrau cydweithredol yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy eu cymunedau drwy bolisïau sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol ac a gymeradwywyd gan eu haelodau.

7 Rhagor o wybodaeth

Peidiwch ag anghofio, os oes angen cyngor neu arweiniad penodol arnoch ar eich strwythur cyfreithiol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni ar sbwenquiries@wales.coop

Neu ewch i'r pecyn cymorth ar-lein <http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/>

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i cyflwynir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o deulu Busnes Cymru.

**Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX**

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg. Mae ffurfiau eraill, megis mewn print bras neu braille, ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg neu Gymraeg a'n nod yw darparu safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.

**Busnes | Business
Cymru | Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**